**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 18 Tachwedd 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Gary Williams, Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol AD a Democrataidd

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Jones/Gary Williams

**Teitl:** Cyfansoddiad y Cyngor

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am fabwysiadu cyfansoddiad model newydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gofyn bod unrhyw newidiadau a fwriedir i Gyfansoddiad y Cyngor yn cael eu hystyried yn gyntaf cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau ar y newid arfaethedig cyn ymgynghori'n ehangach gydag aelodau

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio adroddiad blaenorol ym mis Gorffennaf 2015 a oedd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Erthyglau'r Cyfansoddiad, cynigion ynglŷn â dirprwyo penderfyniadau i aelodau'r Cabinet a newidiadau i'r Rheolau Cyflogi Swyddogion.

4.2 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio barn yr aelodau ar newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo Swyddog. Mae'r cynllun arfaethedig ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad. Mae'r cynllun wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau yn strwythur uwch reolwyr y Cyngor a throsglwyddo cyfrifoldebau sydd wedi digwydd o ganlyniad. Bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ym mis Rhagfyr i ofyn iddynt gymeradwyo'r cynllun fel bod dirprwyaethau'r swyddogaeth weithredol yn cael eu hawdurdodi'n briodol.

4.3 Cyfarfu Gweithgor y Cyfansoddiad ar 13 Hydref i ystyried y codau a phrotocolau a gynhwysir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad. Yn benodol, ystyriodd y grŵp yn fanwl y Protocol ar Aelodau/Swyddogion. Mae fersiwn ddiwygiedig o'r protocol ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

4.4 Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi ystyried diwygiadau posibl i’w gylch gorchwyl ei hun. Yn benodol, cafwyd trafodaeth ar feysydd posibl o waith y gellid eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau. Yn y pen draw, barn y Pwyllgor oedd nad oedd am drosglwyddo meysydd gwaith i'r Pwyllgor hwnnw. Fodd bynnag, bu materion a drafodwyd yn y Pwyllgor megis rheoli risg a chwynion lle bu rhywfaint o bryder o ran dyblygu posibl yn rôl y pwyllgor hwn a chraffu. Mae cylch gorchwyl diwygiedig arfaethedig ar gyfer y pwyllgor hwn ynghlwm yn Atodiad 3 yn barod i'w drafod, sy'n ceisio darparu fersiwn wedi'i diweddaru ac adlewyrchu’r trafodaethau hynny.

4.5 Bwriedir cynnal gweithdy aelodau i friffio'r aelodaeth ehangach ar y newidiadau sydd wedi’u hystyried gan y pwyllgor a gofyn am eu barn cyn mynd ag adroddiad i'r Cyngor ym mis Chwefror 2016 i geisio cymeradwyaeth y Cyfansoddiad diwygiedig.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd cyfansoddiad modern sy’n addas at ei bwrpas yn cyfrannu at y flaenoriaeth i fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda gan ddarparu sicrwydd ar faterion llywodraethu a gwneud penderfyniadau, ymddygiad moesegol, rheolau contractio a phartneriaeth gadarn a chaniatáu i'r cyhoedd a thrydydd parti weld pwy sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad ar faterion sy'n effeithio arnynt.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1 Hyd yma dim ond Gweithgor Cyfansoddiad y Cyngor, y Pwyllgor hwn a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd wedi bod yn rhan o’r ddadl ar y cynigion allweddol yn y cyfansoddiad newydd.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae perygl y bydd Cyfansoddiad sydd heb ei ddiwygio i fod yn gyfredol â newidiadau corfforaethol a deddfwriaethol yn methu â bod yn addas at y diben.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn mynnu bod gan bob cyngor gyfansoddiad.